Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **15 Mai 2015** |
| **Amser:** | **10yb – 12:30yp** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl, Simon Prince (PG)<br>Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Simon Powell (PGC)<br>Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (SG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Ditectif Uwch-arolygydd Andy John (AJ) - ar gyfer eitemau 1 i 3b<br>Ditectif Brif Arolygydd Steve Cockwell (SC) – ar gyfer eitemau 1 i 3b<br>Rhingyll Christina Fraser, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (CF)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Miss Anna James, Swyddog Cymorth, SCHTh (AJ)<br>Mrs Siân Jenkins, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (SJ) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (AP) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd |
| **PAB 207** | **Yr Heddlu i ddarparu cyfanswm costau'r gorsafoedd heddlu symudol gan gynnwys cydrannau a chostau rhedeg cyfredol.** | **Ar waith** |
| **PAB 208** | **Yr Heddlu i ddarparu adolygiad chwe mis o'r gorsafoedd heddlu symudol yn cynnwys y modd y maent yn cael eu defnyddio a sut y gallent gael eu defnyddio eto.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 209** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol yng nghyfarfod mis Mai'r Bwrdd** | **Cyfredol** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 210** | **Yr Heddlu i rannu Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer ymchwil a gomisiynwyd i archwilio tueddiadau mewn data troseddau rhyw mewn mwy o fanylder.** | **Cyfredol** |
| **PAB 211** | **SR i drafod y Cylchoedd Gorchwyl gyda'r Uwch-arolygydd Aled Davies** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 212** | **Yr Heddlu i ddarparu niferoedd y troseddau cyhoeddiadau anllad a riportiwyd gan rieni a/neu ysgolion er mwyn dadansoddi tueddiadau.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 213** | **SR i gynyddu maint y sampl ynghylch data cam-drin domestig er mwyn edrych am batrymau dros gyfnod o amser.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 214** | **Yr Heddlu i rannu argymelliadau Ymgyrch Celtic yn dilyn trafodaeth Grŵp y Prif Swyddogion.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 215** | **Yr Heddlu i ddarparu cyfanswm costau'r gorsafoedd heddlu symudol gan gynnwys cydrannau a chostau rhedeg cyfredol.** | **Ar waith** |
| **PAB 216** | **Yr Heddlu i ddarparu adolygiad chwe mis o'r gorsafoedd heddlu symudol yn cynnwys y modd y maent yn cael eu defnyddio a sut y gallent gael eu defnyddio eto.** | **Cwblhawyd** |

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015 a Materion yn Codi**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod gan wneud rhai mân newidiadau i'r cynnwys.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 2**

Cyflwynodd y Ditectif Uwch-arolygydd Andy John a'r Ditectif Brif Arolygydd Steve Cockwell drosolwg o Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 2 – Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed a oedd yn cynnwys y themâu allweddol a'r diweddariadau ers y diweddariad blaenorol ym mis Rhagfyr.

Rhoddodd AJ ddiweddariad ar adnoddau oherwydd y cynnydd o ran galw. Bu cynnydd sylweddol o ran adnoddau sydd wedi arwain at gynnydd o 50% mewn adnoddau arbenigol ar draws Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys Ditectif Ringylliaid ar gyfer Uned Diogelu Pobl Sy'n Agored i Niwed Sir Gaerfyrddin; Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar; Cymorth Strategol a'r Uned Gyfeirio Ganolog. Mae swyddi Ditectif Gwnstabliaid wedi cynyddu o 10 ar gyfer Ymchwilwyr Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed a Throseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar. Mae pedair swydd dal yn wag ond maen nhw wedi cael eu hail-hysbysebu. Nododd AJ fod achos busnes pellach yn cael ei ystyried mewn perthynas â chymorth gweinyddol o fewn yr Uned Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed ac o ganlyniad i alw cynyddol o fewn MARAC, cam-drin domestig a diogelu plant. Hefyd, nodwyd y gwaith parhaus o gwmpas troseddau digidol ac uwch-dechnoleg a'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu adnoddau yn y maes hwnnw.

Diweddarodd AJ y Bwrdd ar ganfyddiadau arolygiad 2014/15 AHEM ar ddiogelu plant a nododd 12 argymhelliad o fewn yr adroddiad hwnnw. Roedd tri o'r argymhellion hynny wedi'u nodi ar gyfer gwaith di-oed ac roedd gwaith o fewn y meysydd hynny eisoes wedi'i gyflawni ac AHEM wedi derbyn diweddariad ffurfiol o ran y cynnydd a wnaed.

Cynhaliwyd archwiliad MAPPA fis Ionawr a oedd yn gadarnhaol yn bennaf, yn arbennig o gwmpas yr ymagwedd tuag at reoli risg. Nododd yr adborth adnoddau fel mater posibl oherwydd heriau daearyddol yn hytrach na'r baich achosion. Roedd hyn wedi arwain at y swyddogion Troseddwyr Rhyw ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r strwythur. Hefyd, nodwyd angen am hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Troseddwyr Rhyw a bydd yr Heddlu'n anfon staff ar yr hyfforddiant hwnnw. Ychwanegodd y PG fod arolygiad AHEM wedi nodi heriau daearyddiaeth Dyfed-Powys am y tro cyntaf.

Nododd AJ bod hunanasesiad hir ar Ddiogelu Pobl sy'n Agored i Niwed wedi'i gwblhau rhai misoedd yn ôl ac asesiad cyffredinol AHEM oedd nad oedd Dyfed-Powys yn barod ar gyfer y maes busnes hwn. Roedd yr hunanasesiad yn cynnwys pedwar prif faes - llywodraethu, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, atal gorfodi a diogelu. Roedd angen sgôr o o leiaf 75% ym mhob categori ond nid oedd Dyfed-Powys wedi cyflawni'r sgorau hynny ac o ganlyniad mae Heddlu Dyfed-Powys yn un o 8 heddlu sy'n destun ymchwiliad pellach. Mae'r archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer 27 Gorffennaf. Cafwyd trafodaeth ar ganlyniadau'r hunan-asesiad a beth mae'r Heddlu'n gwneud er mwyn gwella'r maes gwaith hwn. Derbyniwyd yn gyffredinol bod y galw yn y maes hwn yn Nyfed-Powys yn

isel iawn a bod yr Heddlu’n blaenoriaethu lle maen nhw’n canolbwyntio’u hymdrechion. Cadarnhaodd y PG fod yr ymateb yn dda ar gyfer y nifer bychan o achosion sy’n cael eu riportio. Nododd y CHTh bryderon yr Heddlu.

Gofynnodd CHTh pa un ai a oedd gan Dyfed-Powys unrhyw boblogaethau arwyddocaol o gymunedau lleiafrifol a nododd y PG nad oedd DP yn dueddol o gael crynodiadau mawr o grwpiau lleiafrifol, ond yn hytrach, unigolion.

Cadarnhaodd y PG y bydd adroddiad yn cael ei ysgrifennu gan AHEM yn dilyn eu harchwiliad ac y bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried yn gymesur â’r galw yn Nyfed-Powys. Bydd angen i’r CHTh ymateb i’r adroddiad hwnnw.

Nododd AJ yr Archwiliadau Bregusrwydd PEEL ar Blant Coll, Cam-drin Domestig a Chamfanteisio’n Rhywiol ar Blant sydd ar ddod. Crynhodd AJ y protocol newydd rhwng ACPO, GEG a Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i hwyluso achosion sy’n ymwneud â dioddefwyr a thystion o dan 10 oed. Bydd y protocol hwn yn gwella’r gefnogaeth a ddarperir ac yn uchafu’r cyfleoedd i gyflawni tystiolaeth orau gan ddioddefwyr. Nodwyd ei bod hy’n bosibl na fydd achos llys ar gyfer rhai achosion am hyd at ddwy flynedd. Mae Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol yn caniatáu ar gyfer croesholi tystion sy’n blant cyn achos llys. Gellir gwneud hyn yn agosach at yr amser y mae’r digwyddiad yn cael ei riportio. Bydd y protocol hwn yn berthnasol ar gyfer pob achos trosedd droseddol sy’n ymwneud â dioddefydd neu dyst sy’n blentyn o dan 10 oed. Nododd AJ nad ydynt yn disgwyl asiantaethau i fynd i gostau ychwanegol er y disgwylir carlamu’r achosion hyn. Bellach, mae’r Heddlu’n monitro ac yn olrhain achosion er mwyn pigo’r achosion hynny sy’n cael eu riportio i fyny. Ym mis Ebrill, cofnodwyd 33 achos yn ymwneud â dioddefwyr a thystion sy’n blant o dan 10 oed, ond ni fydd yr holl achosion hynny’n destun achos llys.  Nodwyd bod trafodaethau’n parhau ar lefel Cymru gyfan rhwng y Llysoedd, GEG a Heddluoedd eraill yng Nghymru i edrych ar ddatblygu’r protocol hwn ymhellach. Cadarnhaodd AJ y bydd y protocol yn cael ei adolygu ar sail Cymru gyfan ar ôl tri mis a bydd yn ystyried bylchau yn y protocol; rhwystrau o ran gallu’r llysoedd i weld a chlywed achosion; ac ymdrin ag ôl-groniadau.

Cyflwynodd SC wybodaeth ar blant Ar Goll o Adref a oedd yn faes arall a gafodd sylw gan Archwiliadau Bregusrwydd PEEL. Yn ddiweddar, mae’r Heddlu wedi archwilio rhifau ar gyfer plant coll ac maen nhw wedi cynnal llawer o waith o gwmpas yr ymateb gweithredol iddo yn ogystal ag edrych ar y rhesymau pam maen nhw’n mynd ar goll,

beth sydd wedi digwydd iddyn nhw yn ystod y cyfnod hwnnw, pa risgiau maen nhw wedi bod yn agored iddyn nhw a chysylltiadau â Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol. Mae darpariaeth gwasanaethau ôl-drafodaeth ar gyfer plant coll wedi mynd i dendr a bydd ymateb yn cael ei werthuso ddiwedd Mai/dechrau Mehefin.

Un o'r heriau eraill yn Nyfed-Powys yw'r nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n cael eu gosod yn yr ardal – ardaloedd gwledig fel arfer lle nad oes crynodiad o adnoddau. Rhoddodd SC enghreifftiau o achosion diweddar lle y bu heriau.

Mae'r Heddlu wedi cynnal adolygiad mewnol ar y Categori Absennol a chanfu defnydd amhriodol o'r categori Absennol ar STORM. Mae Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant Coll yn diffinio'n glir y meini prawf ar gyfer cofnodi plentyn yn absennol yn hytrach nag ar goll. Canfu adolygiad o  132 o negeseuon absennol na chymerir ymagwedd gyson mewn perthynas â'r diffiniad hwnnw. Lle y nodir risg, ni ddylem fod yn defnyddio'r categori absennol. Mae'r heddlu wedi diwygio'r Polisi Unigolion Coll i gynnwys bod unrhyw adroddiad unigolyn coll risg uchel yn cael ei oruchwylio gan y Comander yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Bydd y defnydd o'r categori Absennol yn dod i ben o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a bydd pob adroddiad yn cael ei drin fel Ar Goll.

Adroddodd SC ar y cynnydd sylweddol o ran Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant dros y 6-9 mis diwethaf yn dilyn ymholiad Rotherham.  Mae Ymgyrch Celtic (adolygiad Heddlu Dyfed-Powys o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant) yn dirwyn i ben ac mae cyfres o argymhellion wedi'u gwneud o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn, sy'n cael eu crynhoi yn adroddiad atebolrwydd yr Heddlu. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod yr angen ar gyfer gweithio gydag asiantaethau partner a'r rôl mae angen iddynt chwarae o ran mynd i'r afael â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.  Mae'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (Cysur) wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a fydd yn ystyried ymagwedd amlasiantaeth tuag at fynd i'r afael a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Nododd SC ei fod yn aelod o'r grŵp hwnnw.

Cafwyd trafodaeth ar y polisi Cymru gyfan a sut nad oedd yr awdurdodau lleol bob tro'n cydymffurfio ag ef. Cadarnhaodd SC bod yr awdurdodau lleol wedi gwneud rhai gwelliannau a bod yr Heddlu dal yn y broses o buro rhai o'u prosesau. Byd arweinydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant dynodedig o fewn pob sir. Mae strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Cysur a chynllun gweithredu sydd wedi codi o ganlyniad i'r Heddlu'n rhannu Ymgyrch Celtic gyda nhw. Bydd Cysur yn edrych ar fesurau

perfformiad ar draws y pedwar awdurdod lleol i sicrhau cydymffurfiaeth. Nododd y PG y bydd Cysur yn rhannu'r cynllun y cytunwyd arno ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gyda'r Heddlu a gofynnodd y CHTh am i'r adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod Bwrdd priodol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu'r adroddiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Cysur ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Gorffennaf.**

Bydd y Coleg Plismona'r cynnal adolygiad o Dyfed-Powys fis Gorffennaf, gan edrych ar ymateb yr Heddlu i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae'r angen ar gyfer Ditectif Arolygydd a Dadansoddydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Rhanbarthol o fewn yr Uned Troseddau Trefnedig Ranbarthol wedi'i nodi i edrych ar faterion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac mae ceisiadau'n cael eu derbyn ar hyn o bryd.

Mae tyfiant parhaus o ran y galw am wasanaethau ac ymddengys bod cynnydd o ran galw ym mhob maes Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed. Nododd SC y craffu a'r archwilio parhaus gan AHEM, LlC a Chomisiynwyr unigol (e.e. Comisiynwyr Plant, Henoed, Gwrth-gaethwasiaeth) a'r ffrydiau gwaith a gynhyrchir o'r arolygon hynny.

Wrth symud ymlaen, bydd Adnoddau Arbenigol yn cael eu hail ffurfio er mwyn bodloni'r heriau newydd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rheng flaen er mwyn rheoli bygythiad, risg a niwed. Nododd y PG y bu cam sylweddol ymlaen o ran codi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o fewn yr Heddlu, yn ogystal â dylanwadu ar bartneriaid i ystyried eu hymagwedd a'u gweithdrefnau eu hunain. Cafwyd trafodaeth ar rai o'r heriau a'r materion o ran gweithio mewn partneriaeth.

Diolchodd y CHTh AJ ac SC am eu cyflwyniad cadarnhaol ac addysgiadol a symudodd y drafodaeth ymlaen at ymholiadau gan y CHTh.

Gofynnodd y CHTh am ddiffiniad o gyfeirio Oedolion a Phlant yn ogystal â'r broses gyfeirio. Darparwyd esboniad o'r broses gyfeirio o bwynt gwneud cyfeiriad i'r Uned Gyfeirio Ganolog (UGG) i gyfnewid gwybodaeth rhwng gwahanol asiantaethau, y broses o benderfynu ar y cyd, i'r camau gweithredu i'w cymryd. Holodd y CHTh sawl un o'r cyfeiriadau hynny fyddai'n cael eu hystyried ond ni fyddai camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd. Cadarnhaodd y PG fod pob cyfeiriad yn arwain at o leiaf un drafodaeth strategaeth sy'n cael ei gofnodi ar y system CATS sydd yna'n creu trywydd archwilio o benderfyniadau ar gyfer yr achos penodol hwnnw. Cafwyd trafodaeth ar y broses o ffiltro

cyfeiriadau a’r cynnydd o ran y galw ar yr UGG oherwydd y cynnydd yn nifer y cyfeiriadau. Nodwyd bod y pedwerydd Ditectif Ringyll bellach wedi cychwyn ar ei swydd er mwyn ymdrin â’r galw. Holodd SR pa un ai a oedd y cyfeiriadau’n ymwneud â chyfeiriadau newydd neu gyfeiriadau mynych. Esboniwyd bod y cyfeiriadau’n dod drwy’r Heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol a allai arwain at ddioddefydd yn cael ei gyfeirio o fwy nag un ffynhonnell.

Adroddodd AJ ar y gwaith a gychwynnwyd gan y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) a disgwylir adroddiad ddechrau Mehefin. Gofynnodd CHTh am ddiweddariad ar MASH yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Mehefin.**

Holodd SR am y cynnydd parhaus yn nifer y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn ardal Heddlu DP a pha un ai a oedd hyn yn cymharu â ffigurau’n genedlaethol. Esboniwyd fod hyn yn cyflwyno rhai heriau ychwanegol ar gyfer DP oherwydd materion daearyddol a natur wledig Dyfed-Powys gan fod y rhan fwyaf o achosion yn gymhleth a bod achosion cymharol syml yn medru cymryd cryn amser i’w symud ymlaen.

Holodd CHTh am nifer y troseddwyr a pha un ai a oes meincnod cenedlaethol ‘fesul can mil o’r boblogaeth’. Dywedodd y PG fod nifer y troseddwyr a amheuir yn Nyfed-Powys yn isel ond bod amrywiadau mewn llefydd gwahanol wrth ichi edrych ar niferoedd fesul poblogaeth, felly yn amlwg mae llawer o bobl sy’n agored i niwed ac mae nifer o bobl sy’n debygol o ddod yn droseddwyr. Esboniwyd y gall un ymholiad coll droi’n ffrwd gyfan o waith, o wirio ffonau, archwilio cyfryngau cymdeithasol a’r ymholiad yna’n arwain at ymchwiliad. Darparwyd enghreifftiau o sut y mae ymateb yr Heddlu tuag at achosion o gam-fanteisio’n rhywiol ar blant wedi gwella a’r newidiadau sydd wedi digwydd dros y deuddeg mis diwethaf.

Gofynnodd CHTh am y data amrwd y tu ôl i’r graff a gyflwynwyd ar gyfer cyfeiriadau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) am well ddadansoddiad.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi data amrwd i SR ar gyfer cyfeiriadau MARAC.**

Holodd y CHTh am ddethol y sefydliad a fyddai'n cynnal yr arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr a nodwyd y byddai'r gwaith yn cychwyn ym Mehefin. Roedd yr Heddlu'n ystyried datblygu arolwg penodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu a SCHTh i ddatblygu arolwg bodlonrwydd dioddefwyr penodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.**

Cynigodd DGHTh gynorthwyo'r Heddlu â heriau gweithio mewn partneriaeth. Hefyd, holodd DGHTh pa un ai a oedd unrhyw feysydd eraill o gwmpas Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed a allai elwa o gomisiynu gwasanaethau allanol a fyddai'n mynd â'r galw hwnnw i ffwrdd o'r Heddlu e.e. comisiynu diweddar gweithwyr fframwaith asesu'r risg o gam-fanteisio rhywiol. Esboniodd AJ fod yr Heddlu ar hyn o bryd yn edrych ar droseddwyr o gwmpas cam-drin domestig a rhaglen integredig yn erbyn troseddwyr niwed difrifol. Bydd oblygiad adnoddau ac unrhyw ofyniad yn hysbys erbyn diwedd Mehefin.

Holodd SR am nifer y bobl a gadwyd (o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl) pan nad oedd y Brysbennu Iechyd Meddwl yn weithredol a holodd pa un ai a oedd unrhyw ystyriaeth o gwmpas cynyddu eu horiau. Roedd y brysbennu'n agosáu at 6 mis o gyfnod prawf 12 mis a byddai'r Heddlu'n hapus i bennu mwy o adnoddau. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwymo un ymarferwr Iechyd Meddwl i'r prosiect ac maen nhw bellach wedi sefydlu carfan o 6 ymarferwr Iechyd Meddwl sy'n medru darparu cymorth ychwanegol. Byddai gwerthusiad llawn o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal ar ddiwedd y 12 mis a theimlwyd y gallai esblygu i wasanaeth 24/7. Nododd y PG fod arwyddion cynnar yn dangos bod y Brysbennu'n gweithio'n dda iawn.

Mae trefniadau gwahanol mewn grym ym Mhowys. Mae angen i Arolygydd awdurdodi unrhyw benderfyniad i gadw unigolyn o dan Adran 136. Cyn y gwneir penderfyniad, ceisir cyngor gan y gweithiwr argyfwng ar alwad.

Holodd CHTh pa un ai a allai'r adolygiad bennu pa un ai a oes llai o garchariadau pan nad yw'r gwasanaeth brysbennu'n weithredol. Cafwyd trafodaeth ar y costau, amser a'r effaith ar wasanaethau eraill unwaith y mae rhywun wedi'i gadw o dan Adran 136, yn arbennig y tu allan i oriau.

Gofynnodd CHTh pa un ai a fyddai'r gwerthusiad yn ystyried pa un ai a oedd angen fan arbenigol ar y gwasanaeth neu pa un ai a fyddai'n gweithio'n well yn defnyddio cerbyd cyffredin. Nododd AJ bod data mewn perthynas â lleoli'r fan brysbennu ar gael yn fuan.

Nodwyd bod mwy o fanteision i faniau brysbennu symudol nag y disgwyliwyd yn wreiddiol.

Diolchodd y CHTh i AJ a SM am eu cyflwyniad.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 2**

Cyflwynodd y Pennaeth Staff drosolwg o'r adroddiad ar ran y Cyfarwyddwr Comisiynu. Mae gwasanaethau wedi'u comisiynu'n dechrau gwneud gwahaniaeth - er enghraifft, gweler gwasanaeth Newid ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a'r lefelau bodlonrwydd a adroddwyd. Mae mwy o bwyslais ar reoli cytundeb gwasanaethau wedi'u comisiynu.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y galw ar gyfer Oedolion Priodol (OP) yn y ddalfa a gofynnodd CHTh am fwy o wybodaeth ynghylch darpariaeth OP ar gyfer pobl ifainc sy'n dioddef salwch meddwl ac oedolion gydag anawsterau dysgu ac anableddau dysgu cofrestredig. Nododd y PG y gwahaniaeth rhwng y rhai sydd ag anawsterau dysgu a'r rhai gydag anableddau dysgu cofrestredig.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ymchwilio i'r galw ar gyfer Oedolion Priodol yn y ddalfa.**

Nododd y CHTh y drafodaeth barhaus ar Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw a pha un ai a dylid eu canoli a pha un ai a oes ffordd mwy cost effeithio o weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a'r cyfle i gyfrannu at hyfforddi Meddyg hyd safon fforensig.

Nododd CHTh bod y Ganolfan Dioddefwyr yn weithredol a'i bod wedi'i chyd-leoli yn y Pencadlys a dros y 12 mis nesaf byddai gwaith yn digwydd er mwyn cael cyswllt wyneb yn wyneb â dioddefwyr a rhoi mesurau perfformiad ar waith.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR adroddiad perfformiad SCHTh i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys ffigurau hyd fis Ebrill. Nododd SR bod y pennawd allweddol yn yr adroddiad yn ymwneud â chynnydd o ran trosedd dros y misoedd diwethaf a sut mae hyn yn cymharu â'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys tri mis cyntaf sefydlu'r Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus a gwariant nad yw'n gyflog.

Nododd SR gynnydd yn nifer y troseddau ac roedd eisiau mynd at wraidd y manylion i ofyn pa un ai a oedd hynny'n ymwneud â mathau penodol o droseddau.

Nododd SR gynnydd yn nifer y troseddau difrod troseddol a thanau bwriadol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion a gofynnodd pa gamau gweithredu mae'r PG yn cymryd er mwyn mynd i'r afael a'r cynnydd. Esboniodd y PG bod nifer o ffigurau trosedd nawr yn wahanol oherwydd y ffocws ar gofnodi troseddu manwl gywir. Mae nifer o droseddau bellach yn cael eu cofnodi fel difrod troseddol, a fyddai wedi'u trin fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gorffennol. Cadarnhaodd y PG bod y data wedi datgelu bod digwyddiadau a ddylai fod wedi'u cofnodi fel difrod troseddol yn y gorffennol heb eu cofnodi'n gywir. Rydyn ni wedi gweld lefel uchel o ddifrod ledled canol tref Caerfyrddin – difrod i geir wedi'u gadael heb ofalydd a drychau ochr, troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol, a materion trwyddedu. Nid dyma'r rheswm cyfan dros y cynnydd. Mae'n llai clir o lawer mewn ardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin beth yw'r rheswm dros y cynnydd – does dim thema amlwg. Mae nifer o'r rhain yn canolbwyntio'n fwy ar y dioddefydd e.e. cam-drin domestig, bygythiadau, anghydfod dros ffiniau.

Yng Ngheredigion, mae'r rhan fwyaf o ddifrod troseddol yn cael ei gofnodi yn ardaloedd Aberystwyth a Borth a difrod i gerbydau yw'r difrod yn bennaf. Bydd yr ymgyrch 'Edrych ar ôl Eich Drychau' yn mynd i'r afael â pheth o'r difrod hwn (cyngor i wthio drychau ochr i mewn ayyb.). Gofynnodd CHTh pa un ai a allai'r Arolygydd yn Aberystwyth adael i'w Ymgynghorydd Materion Cyhoeddus wybod am yr ymgyrch fel ei fod e'n medru hyrwyddo'r ymgyrch. Mae'r Heddlu hefyd yn ymgymryd â rhai patrolau targedig mewn ardaloedd lle y mae crynodiad o drwyddedigion alcohol.

**Cam Gweithredu: SCHTh i hyrwyddo ymgyrch 'Edrych Ar Ôl Eich Drychau' yr Heddlu.**

Gofynnodd SR pa un ai a oedd rheswm dros y cynnydd diweddar mewn troseddau byrgleriaethau nad ydynt yn digwydd mewn tai preswyl yng Ngheredigion a pha gamau gweithredu mae'r Heddlu'n cymryd er mwyn mynd i'r afael a hyn. Darparodd yr Heddlu enghreifftiau o waith gweithredol rhagweithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r troseddau hyn. Esboniodd y PG bod y ffigurau'n fach yn gyffredinol, a bod rhai'n gysylltiedig ag un grŵp o blant o dan 16 oed. Mae gwaith yn digwydd er mwyn cysylltu rhai o'r troseddau eraill.

Gofynnodd SR pa gyfran o droseddau ymosodiad cyffredin sy'n rhai domestig; ydy'r PG wedi adnabod unrhyw batrymau eraill neu ffactorau cysylltiedig? Dywedodd y PG bod traean yn rhai domestig - mae darn penodol o waith yn cael ei gyflawni er mwyn dadansoddi difrifoldeb yr ymosodiadau a phatrymau cofnodi. Esboniodd y PG bod

cysylltiad clir yn y gwymp mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r cynnydd o ran cofnodi ymosodiadau cyffredin. Yn y gorffennol, byddai'r digwyddiadau hyn wedi'u cofnodi fel digwyddiadau trefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond bellach, maen nhw'n cael eu cofnodi fel ymosodiadau cyffredin. Yn flaenorol, byddai nifer o fân ymosodiadau wedi'u riportio fel ymddygiad gwrthgymdeithasol - bellach, maen nhw'n cael eu cofnodi fel ymosodiadau ac yn cael eu trin yn unol â hynny.

Gofynnodd SR pa gyfran o ymosodiadau rhywiol ar berson 13 oed a hŷn sy'n ymwneud â throseddau a gyflawnwyd yn erbyn plant o dan 16 oed? Ni allai'r PG ddarparu niferoedd ar gyfer y rhai o dan 18 ond plant o dan 16 oed yw 32% o'r cyfanswm o ymosodiadau rhywiol (hŷn na 13 oed). Gofynnodd SR am eglurhad ynghylch sut y mae troseddau rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu cofnodi.

Gofynnodd SR pa un ai a oedd cynnydd wedi'i wneud o ran lleihau'r oediadau mewn perthynas ag achosion diogelu plant. Ymddengys y bu gostyngiad o ran hyd achosion dros y misoedd diwethaf ond mae materion o hyd o gwmpas cyflymder achosion. Mae cynnydd mewn galw ar GEG oherwydd y cynnydd yn nifer y troseddau rhywiol sy'n cael eu riportio. Mae'r Pennaeth Trosedd yn cynnal cyfarfodydd misol gyda Phennaeth GEG er mwyn edrych ar y materion. Mae gwasanaethau'n cael eu hestyn, ond mae'r Heddlu'n monitro'r sefyllfa. Gofynnodd CHTh am unrhyw wybodaeth gan GEG ar hyd cyfartalog achosion, yr amser o'r gwrandawiad cyntaf ayyb. Bydd SR yn cael gafael ar y wybodaeth hon.

Nododd SR bod arolwg erledigaeth fasnachol ddiweddar y Swyddfa Gartref ar Droseddau Busnes wedi adrodd gostyngiad mewn bodlonrwydd o ran y modd y mae'r Heddlu'n trin troseddau rhai sectorau penodol a hefyd y gwymp yn nifer yr adeiladau o fewn y sectorau hynny sydd wedi cael cysylltiad â'r Heddlu. Gofynnodd SR i'r PG os oedd e'n credu mai hyn yw'r achos yn Nyfed-Powys. Nododd y PG bod DP wedi lansio rhaglen o ymweliadau yn ddiweddar â busnesau lleol, yn arbennig busnesau amaethyddol, i hyrwyddo'r amrywiol Gynlluniau Gwarchod Cymunedol. Mae'r Heddlu'n gofyn am fanylion busnesau lleol a byddant yn dod yn rhan o'r Cynlluniau Gwarchod Cymunedol unwaith y bydd y system wedi'i lansio.

Gofynnodd SR am y cysylltiadau sydd gan yr Heddlu Internet Watch Foundation (IWF) a pha un ai a yw'r Heddlu'n cyfeirio cynnwys troseddol sydd o dan amheuaeth i'r IWF. Dywedodd y PG os oes adroddiad am ddeunydd anweddus ar-lein, bydd yr Heddlu'n

cyflwyno adroddiad i'r IWF fel mater o drefn. Nododd y PG bod gwahaniaeth weithiau mewn trothwyon, o ran y ffaith y bydd Dyfed-Powys weithiau'n riportio digwyddiadau na fydd yr IWF o bosibl yn eu cofnodi.

Nododd SR bod Dyfed-Powys dal â'r gyfradd rybuddio uchaf yng Nghymru a Lloegr dros y 12 mis diwethaf a gofynnodd os yw'r Heddlu'n ceisio parhau i leihau'r lefelau o rybuddion a weithredir yn Nyfed-Powys. Dywedodd y PG nad ffocws yr Heddlu yw lleihau nifer y rhybuddion, ond yn hytrach, ymdrin â throsedd yn y dull mwyaf priodol. Esboniodd y PGC/DD fod nifer y rhybuddion i lawr o 28% ar ôl cyflwyno'r datrysiadau cymunedol Oedolion ar 1 Ionawr wrth gymharu data ar gyfer 4 mis cyntaf y flwyddyn hwn a 4 mis olaf y flwyddyn flaenorol. Cadarnhaodd yr Heddlu eu bod yn olrhain nifer y rhybuddion sy'n cael eu cyhoeddi ac yn edrych arno ar sail fisol. Dywedodd y PG bod lle ar gyfer rhybuddion a'r gwahaniaeth yw bod yr Heddlu'n ymchwilio i bob trosedd sy'n cael ei riportio sy'n golygu ymdrin â llawer mwy na Heddluoedd eraill. Mae Dyfed-Powys hefyd yn erlyn cyfran uwch o achosion nag unrhyw Heddlu arall.

Gofynnodd SR pa un ai a ystyriwyd annog siaradwyr Cymraeg i geisio am swyddi wrth recriwtio swyddogion heddlu, yn arbennig yng Ngheredigion. Cadarnhaodd y PG bod ffurflen gais ar gael yn y Gymraeg ond bod nifer y rhai a lenwodd ffurflen Gymraeg yn siomedig. Hefyd, nododd y PG bod yr Heddlu'n gweithio gyda Phrifysgolion Abertawe a'r Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Benfro a Choleg Sir Gâr er mwyn hyrwyddo recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Adroddodd CHTh ar y data ar gyfer y tri mis cyntaf ers sefydlu'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid oedd hi'n bosibl llunio casgliadau cadarn eto ond mae'n ymddangos fel pe bai'r Swyddfa'n cyflawni ei hamcanion. Nododd y CHTh y bu trafodaeth am ddiwygio rhai prosesau er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon. Nododd y CHTh bod angen trin cwynion yn annibynnol ac os yw'r cyhoedd eisiau ymateb dylent ddod yn ôl at y Swyddfa yn hytrach na'r Heddlu a dylai'r Swyddfa ddarparu ymateb.

Nododd SR bod maes hyder cyhoeddus penodol wedi bod yn is yn gyffredinol yn Nyfed-Powys na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Gofynnodd SR beth mae'r Heddlu'n gwneud er mwyn gwella hyder cyhoeddus yn y maes hwn. Nododd y PG bod yr Heddlu wedi ymuno â'r cynllun defnydd gorau o Stopio a Chwilio, ac roedd ar fin cael ei fonitro gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar sut y mae'n ymgysylltu â'i gymunedau. Mae'r Heddlu'n edrych ar recriwtio mewn gwahanol ardaloedd o'r Heddlu i gynnwys

cymunedau amrywiol. Roedd y PG yn teimlo bod Dyfed-Powys yn trin pobl yn deg ond mae angen mwy o ddadansoddi o gwmpas y maes penodol hwnnw.

Gofynnodd SR beth yw polisi'r Heddlu ar ddefnyddio gynnau taser ar blant. Esboniodd y PG Bolisi'r Heddlu ar y defnydd o ynnau taser. Mae'r Polisi'n dweud nad oes gwahaniaeth rhwng plentyn ac oedolyn. Cadarnhaodd y PG yr awdurdodir y defnydd o ynnau taser ar sail wythnosol ond mae angen awdurdod Arolygydd ar gyfer eu defnyddio ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, ond yn hytrach, mewn achosion lle y mae Swyddogion yn wynebu trais neu fygythiad trais yn unig. Cadarnhaodd y PG na fu unrhyw achosion diweddar lle y defnyddiwyd gwn taser ar blentyn.

Nododd y PSA y ffocws yn yr adroddiad hwn ar wariant nad yw'n gyflog a'r data ar yr 20 prif gyflenwr yn ôl gwerth. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y mae'r Heddlu'n sicrhau ei fod yn cael Gwerth am Arian o'i holl gytundebau. Dywedodd y CC bod yr Heddlu'n gysylltiedig ag amrediad o weithgareddau, er enghraifft, y gwaith rhaglen orfodi ar y cyd cyfredol drwy'r Swyddfa Gartref. Nododd y CC y gwaith cyfredol ar safoni gofynion ar draws yr ardaloedd Heddlu a'r cydweithio posibl ar rai cytundebau lle y mae cytundeb yn dod i ben mewn Heddlu penodol. Nododd y CC bod pob cytundeb dros £25,000 yn destun tendr drwy'r adran gaffael.

Gofynnodd y PSA am ddata mwy manwl wrth y cyflenwyr canlynol er mwyn dadansoddi'n fanylach: cyflenwr meddygol fforensig (ymhle mae'r costau ac ar gyfer beth y mae'r costau), y ddau gyflenwr cerbydau (sawl cerbyd a gyflenwyd ym mhob achos), y ddwy set o adeiladwyr (pa brosiectau maen nhw'n gweithio arnyn nhw); y ddau darparwr telegyfathrebu (beth mae pob un yn cyflenwi a pha un ai a fyddai'n rhatach defnyddio un cyflenwr yn unig).

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â chostau ar gyfer cyflenwr meddygol fforensig; darparwyr cerbydau; adeiladwyr a darparwyr telegyfathrebu i'r PSA.**

**Adroddiadau diweddaru**

**a. Cwestiynau o gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion**

Nododd y CHTh y gofynion ar gyfer mwy o adnoddau yn yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu a oedd wedi'i argymell yng Ngrŵp Prif Swyddogion mis Ebrill. Bydd papur yn cael ei gyflwyno a'i drafod mewn Bwrdd Plismona sydd i ddod.

Nododd y CHTh y trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb ar gyfer camerâu fideo a wisgir ar y corf hefyd. Gofynnodd y CHTh am gael gweld achos busnes ar gyfer camerâu fideo a wisgir ar y corff.

**b. Ap 'Barnwch Eich Heddlu Lleol'**

Nodwyd diweddariad ar y cynllun peilot 'Barnwch Eich Heddlu Lleol' a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref.

Doedd dim busnes arall.

**Camau gweithredu:**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan: |
| **PAB 217** | **Yr Heddlu i rannu'r adroddiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Cysur ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Gorffennaf.** | **PG/Heddlu** |
| **PAB 218** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Mehefin.** | **Heddlu** |
| **PAB 219** | **Yr Heddlu i roi data amrwd i SR ar gyfer cyfeiriadau MARAC.** | **Heddlu** |
| **PAB 220** | **Yr Heddlu a SCHTh i ddatblygu arolwg bodlonrwydd dioddefwyr penodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.** | **Heddlu/CC** |
| **PAB 221** | **Yr Heddlu i ymchwilio i'r galw ar gyfer Oedolion Priodol yn y ddalfa.** | **Heddlu** |
| **PAB 222** | **SCHTh i hyrwyddo ymgyrch 'Edrych Ar Ôl Eich Drychau' yr Heddlu.** | **SCHTh** |
| **PAB 223** | **Y CC i rannu gwaith ar safoni mewn perthynas â chydweithio o ran caffael.** | **CA** |
| **PAB 224** | **Yr Heddlu i ddarparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â chostau ar gyfer cyflenwr meddygol fforensig; darparwyr cerbydau; adeiladwyr a darparwyr telegyfathrebu i'r PSA.** | **Heddlu** |